



Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS

Ffôn: (01248) 712287

e-bost: pennaeth.davidhughes@ynysmon.gov.uk

Menai Bridge
Isle of Anglesey
LL59 5SS

Tel: (01248) 712287

e-mail: pennaeth.davidhughes@anglesey.gov.uk

Pennaeth / Headteacher
H.Emyr Williams BSc, MEd

17.03.2020

Annwyl Riant / Warcheidwad

Par: Coronafeirws (COVID-19)

Ysgrifennaf gyda diweddariad ynghylch y sefyllfa parthed y Coronafeirws a'i effaith posib ar rediad yr ysgol i'r dyfodol.

Rydym yn gweithredu yn unol ag arweiniad ffurfiol a gawn gan yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru, ac ar hyn o bryd mae'r arweiniad hwnnw yn golygu bod ysgolion yn parhau ar agor. Fodd bynnag, ymddengys fel petai'r sefyllfa'n newid yn ddyddiol ac fe all yr arweiniad hwnnw newid.

Mae iechyd a diogelwch ein dysgwyr, staff yr ysgol a'r gymuned ehangach o'n cwmpas yn flaenoriaeth uchel ac fe fyddwn yn monitro'r sefyllfa'n agos dros y dyddiau nesaf. Eisoës rhoddwyd nifer o gamau yn eu lle i leihau'r risg, gan gynnwys gweithdrefnau'n ymwneud â glanweithdra, lleihau symudiad unigolion, osgoi cyfarfodydd diangen a chyfyngu ar y nifer o ymwelwyr ac ymweliadau a drefnir.

Mae'r cyngor diweddaraf yn nodi y dylai disgybl aros adref am 14 diwrnod os yw ef/hi neu unrhyw aelod o'r teulu agosaf yn arddangos symptomau o beswch a/neu wres.

Rydym yn y broses o gynllunio trefn lle gellid parhau i addysgu disgyblion o bell pe byddai rhaid cau'r ysgol. Fe fyddai'r cynlluniau hyn yn cael eu gweithredu'n bennaf drwy fynediad i ddeunyddiau ar-lein ac felly'n ddibynnol ar fynediad dibynadwy yn y cartref. Gofynnaf yn garedig i chi gysylltu â ni ar unwaith os nad oes gennych fynediad addas fel y gallwn wneud trefniadau amgen ar eich cyfer.

Byddwn yn llunio Rhaglenni Gwaith wythnosol ar gyfer pob disgybl ac yna'n dosbarthu'r adnoddau drwy lwyfannau ar-lein:

'Show My Homework' : mae angen i bob disgybl a riant sicrhau bod ganddynt fynediad ato a chysylltu â ni os oes problem.

HWB - drwy Hwb gellir cael mynediad at **Google Classroom** lle bydd yr athrawon yn gallu gosod, derbyn a dychwelyd gwaith. Dylid gwirio ar unwaith fod gan bob disgybl y cyfrineiriau perthnasol er mwyn cael mynediad.

Bydd dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau TGAU angen mynediad at yr adnoddau ar-lein **'GCSE PODS'** a'r pecynnau adolygu Gwyddoniaeth **'Tanio'** hefyd; angen gwirio bod ganddynt y manylion logio ymlaen perthnasol. Mae yna lawer o wefannau adolygu gwerthfawr eraill ar-lein megis **BBC Bitesize** a **Mathemateg.com**

Yn y cyfamser byddwn yn parhau i gyfathrebu â chi yn gyson drwy'r dulliau arferol ac, os yn bosib, awgrymir eich bod yn dilyn ein cyfrif Twitter **@DavidHughesYDH**

Am gyngor ac arweiniad pellach, defnyddiwch y canlynol:

<https://llyw.cymru/coronafeirws>

<https://icc.qig.cymru>

Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau pellach, cysylltwch â'r ysgol yn y modd arferol.

Yn gywir

PENNAETH